At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: 17 Hydref 2018

Rhif Union: 01824706141

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 23 HYDREF 2018** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG AC AELODAU'R CYHOEDD FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN YMA O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD** (Tudalennau 7 - 8)

Nodi ymrwymiadau dinesig a ymgymerwyd gan Gadeirydd y Cyngor (copi ynghlwm).

**5 COFNODION** (Tudalennau 9 - 20)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 11 Medi 2018 (copi ynghlwm).

**6 BARGEN DWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU: DOGFEN CYNIGIAD** (Tudalennau 21 - 112)

Ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus (copi ynghlwm) Gofyn i'r Cyngor fabwysiadu'r Ddogfen Cynnig ac awdurdodi'r Arweinydd i ymrwymo'r Cyngor, ochr yn ochr â'i bartneriaid, i ddod i gytundeb Penaethiaid Termau gyda'r llywodraethau yn y DU a llywodraethau Cymru.

**7 ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2017/18** (Tudalennau 113 - 220)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (copi ynghlwm) i Aelodau gymeradwyo'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2017/18.

**8 CYD-BWYLLGOR CRAFFU AR GYFER Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS** (Tudalennau 221 - 274)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm) ynghylch y trefniadau arfaethedig ar gyfer y dyfodol i graffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

**9 RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynwyd Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Rachel Flynn ar ran Plaid Geidwadol Cymru i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

"Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cefnogi Cyfraith Lucy sef yr Ymgyrch Genedlaethol i wahardd y gwerthiant o gwn bach trwy drydydd parti. Bod Cyngor Sir Ddinbych yn ychwanegu ei enw i'r rhestr gynyddol o sefydliadau sy'n cefnogi'r ymgyrch gan fod yn rhagweithiol wrth dynnu sylw ein preswylwyr ar draws y Sir at yr ymgyrch. Aelodau yn gofyn i Gyngor Sir Ddinbych ysgrifennu at lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r galw i gymryd gweithred ar unwaith ar y mater hwn."

**10 RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynwyd Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Graham Timms i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

"Mae'r Cyngor hwn yn gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i ystyried yr opsiynau a chyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn ar 19 Chwefror 2019 sydd yn amlinellu sut y gellir newid y cyfansoddiad i ddileu'r gofyniad am gydbwysedd gwleidyddol yn y Cabinet."

## 11 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynwyd Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

"Bod y Cyngor hwn yn nodi:

- Papur Gwyn Brexit a'n Tir Llywodraeth Cymru ac ymgynghoriad dilynol;
- Y cynigion o fewn y papur i ddileu Taliadau Sylfaenol i ffermwyr;
- Bod y taliadau sylfaenol hynny yn cyfrannu hyd at 80% o incwm ffermwyr da byw;
- Bod y diwydiant amaeth yn parhau i fod yn gyflogwr sylweddol, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn Sir Ddinbych;
- Bod cynigion Llywodraeth Cymru yn gallu arwain at berchnogion tir eraill (h.y. sefydliadau trydydd sector, cwmnïau coedwigaeth, unigolion neu sefydliadau cyfoethog iawn) i allu cael mynediad i gyfanswm cyfyngedig o gyllid cyhoeddus sydd ar gael ar hyn o bryd i ffermwyr;
- Cynigion blaenorol gan y Llywodraeth ynglŷn â thaliadau fferm wedi cynnwys asesiadau manwl o'r effaith economaidd.

Mae'r Cyngor hwn yn mynegi pryder bod Papur Gwyn Brexit a'n Tir ddim yn cynnwys model neu asesiadau o sut effaith y bydd y newidiadau arfaethedig yn ei gael ar yr economi leol neu genedlaethol.

Mae'r Cyngor yn bryderus y bydd y cynigion arfaethedig yn gallu cael effaith negyddol ar economi Sir Ddinbych.

Mae'r Cyngor yn credu na ddylid cyflwyno newidiadau i daliadau fferm nes cyflwynir asesiadau manwl o'r effeithiau economaidd posib yn sgil y cynigion hyn.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Aelodau'r Cabinet sydd â chyfrifoldeb am yr Economi i wneud sylwadau yn ymateb i'r Ymgynghoriad yn gwrthwynebu'r cynigion nes bod Llywodraeth Cymru wedi llunio asesiad cynhwysfawr a manwl o'r effaith posib ar swyddi ac economi Sir Ddinbych."

## 12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR (Tudalennau 275 - 278)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

## AELODAETH

### Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Peter Scott (Cadeirydd) | Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies (Is-Gadeirydd) |

Mabon ap Gwynfor
Brian Blakeley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
Ellie Chard
Ann Davies
Gareth Davies
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Rachel Flynn
Tony Flynn
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Hugh Irving
Alan James
Brian Jones
Huw Jones
Pat Jones
Tina Jones
Gwyneth Kensler
Geraint Lloyd-Williams
Richard Mainon
Christine Marston
Barry Mellor
Melvyn Mile
Bob Murray
Merfyn Parry
Paul Penlington
Pete Prendergast
Arwel Roberts
Anton Sampson
Glenn Swingler
Andrew Thomas
Rhys Thomas
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Graham Timms
Joe Welch
Cheryl Williams
David Williams
Eryl Williams
Huw Williams
Emrys Wynne
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned